

AMPED

Mae AMPED yn cynhyrchu cynhyrchion Adwaith Cadwynol Polymeras (ACP) safon aur am ffracsiwn o'r pris trwy ddull arloesol o weithgynhyrchu.

Mae'r maes safonau diogelwch bwyd yn esblygu'n gyson, ac mae profion ACP wedi dod yn ddull derbyniol ar gyfer canfod pathogenau yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Mae profion ar gyfer Salmonella a Listeria mewn lleoliadau masnachol a diwydiannol wedi tyfu'n sylweddol, ac mae costau ymchwil a datblygu wedi gostwng. Mae pecynnau prawf cyflym rhad wedi dod yn boblogaidd, ond mae datblygiadau'n cael eu gwneud i wella dibynadwyedd a lleihau costau dulliau mwy sensitif fel ACP.


Mae AMPED yn cyflwyno cynhyrchion ACP newydd, sy'n amharu ar y farchnad hon.

AMCANION

Mae AMPED yn canolbwyntio ar sectorau ymchwil canfod pathogenau bwyd a gwyddor bywyd, gyda chynhyrchion a datrysiadau newydd sy'n gwella mynediad cwsmeriaid at dechnolegau canfod sy'n seiliedig ar DNA mewn cymwysiadau Diagnostig nad ydynt yn 'In Vitro' a Marchnadoedd Cymhwysol.

Bydd symleiddio profion pathogenau bwyd a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bryderon diogelwch bwyd yn arwain at agwedd iachach a mwy technolegol tuag at ddiogelwch bwyd ymhlith cynulleidfaoedd ehangach.

"Mae cynnwys AMPED yn y rhaglen BioAccelerate gan ArloesiAber, a darparu mynediad at ei gronfeydd dyfarnu, wedi bod yn gatalydd i AMPED achub ar gyfleoedd i gychwyn a chynyddu."



ArloesiAber
AberInnovation



CYSYLLTWCH Â NI: INNOVATE@ABER.AC.UK
ABERINNOVATION.COM
[@ABERINNOVATION](https://twitter.com/ABERINNOVATION)


AMPED PCR



MEWNWELEDIAD

Mae AMPED wedi symleiddio mynediad at gynhyrchion profi ACP fforddiadwy, wedi'i llunio i flaenoriaethu profiad diwedd defnyddiwr ac effeithlonrwydd economaidd.

Mae'r llunio perfformiad uchel yn darparu'r safon aur am ffracsiwn o'r gost.



HERIAU

- Y 'farchnad fonopoli' yn y sector
- Gall llawer o gynnyrch yn y diwydiant gael ei or-gymhlethu
- Nid yw mynediad at wybodaeth am y cynhyrchion ACP 'cywir' yn cael eu cydnabod yn dda
- Gall defnyddiwr ACP newydd gael eu digalonni wrth geisio llywio'r farchnad ACP gymhleth sydd ar gael, a phrofiad cyffredinol y defnyddiwr o'r cynnyrch

DATRYSIADAU

- Nod AMPED yw gwneud cynhyrchion yn haws i'w defnyddio a symleiddio prosesau
- Datblygu map ar gyfer yr arfer gorau ar gyfer gwasanaethau yn y diwydiant bwyd
- Cynnig cynhyrchion i brofi bwyd yn effeithlon
- Dyluniadau cynnyrch economaidd sydd â gogwydd defnyddwyr

GEIRDA



"ArloesiAber yw'r hyb strategol sy'n cyd-fynd â nodau ein cwmni, gan ei wneud yn ganolbwynt i'r ecosystem lle rydym am weithio a chydweithio.

Mae'n cynnig llwyfan ac adnodd canolog sy'n ein galluogi i gydlynu cynllun pum mlynedd. Mae cael adnodd o'r fath yn y rhanbarth yn ardderchog i unrhyw gwmni sy'n ceisio trosoli cyfleusterau ac arbenigedd o'r radd flaenaf i gyflymu ei dwf.

Mae'r gefnogaeth a'r adnoddau rydw i wedi'u cael wrth weithio gydag ArloesiAber wedi bod yn drawsnewidiol, ac mae'r gymdeithas wedi ennill cefnogaeth i ni o Arloesi Llywodraeth Cymru ac wedi agor drysau gyda Banc Datblygu Cymru, sy'n gamp sylweddol."

- Ben Davis,
sylfaenydd a'r Prif Swyddog
Gweithredol

WWW.AMPEDPCR.CO.UK



Biotechnology and
Biological Sciences
Research Council



1872 PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY